

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWDYD AR 23 MEDI 2019

YSTAFELL BWYLLGOR, SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Rhif agenda	Nodiadau	Camau gweithredu
	<p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair); Hywel John (Trysorydd); Carys Howell; Catherine Duigan; Gwyneth Hayward; Hywel Ceri Jones; Jessica Seaton; Madeleine Havard; Michael Prior; Rachel Hughes; Rob Humphreys; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysgu ac Ymgysylltu; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>YN BRESENNOL: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu; Catrin Taylor, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu; Nicky Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr MAALD.</p>	
	<p>DATGANIAD O FUDD</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni dderbyniwyd dim. <p><u>Penderfynwyd:</u> y caiff y Gofrestr Buddiannau ei hystyried gan y Llywydd.</p>	RL
	<p>Yn Sesiwn Gaeddig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol: Gohebiaeth y Llywydd â'r Ymddiriedolwyr; Diweddariad ar yr Ôl-groniad o Waith Cynnal a Chadw; Moeseg Codi Arian a Nawdd; Sganio'r Gorwel.</p> <p>Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>CROESO AC YMDDIHEURIADAU Croesawodd Roger Lewis bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell (Is-lywydd), Glenda Jones, Kay Andrews, Maria Battle a Robert Pickard.</p>	
2	<p>COFNODION <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019.</p>	
3	<p>MATERION YN CODI</p> <p>4 6.6.3 Uwchgynllun Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r tendr drafft ar gyfer gwasanaethau uwchgynllunio ym mis Hydref. <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny a bod y Bwrdd yn cael diweddariad yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2019.</p> <p>7.1.3 Casgliadau ac Ymchwil Bydd cyfarfod o'r Adran Gasgliadau yn cael ei gynnal ystod yr wythnos nesaf, a bydd y blaenoriaethau ar gyfer casglu a derbyn rhoddion yn cael eu hystyried.</p>	JL
4	<p>ADOLYGU GWEITHGAREDDAU</p> <p>1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd:</u> Bod y Bwrdd wedi cael diweddariad ar y gweithgareddau a'r cynnydd yn ystod y chwarter mewn perthynas â Chynllun Gweithredol 2019/20. Roedd yr Amgueddfa yn</p>	

	<p>ymwybodol o bwysigrwydd rôl y Pennaeth Ymchwil, yn arbennig o ran cefnogi'r myfyrwyr doethuriaeth a oedd yn gweithio yn yr Amgueddfa. Byddai cyfweiliadau ar gyfer Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cael eu cynnal ddydd Mawrth 24 Medi 2019.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny ac y bydd yr Amgueddfa yn ailhysbysebu'r swydd Pennaeth Ymchwil ac yn ceisio penodi cyn gynted â phosibl. Yr wybodaeth recriwtio i gael ei rhannu gyda Dirprwy Gyfarwyddwr MAALD, er mwyn ei galluogi i friffio'r Gweinidog.</p> <p>2. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysgu ac Ymgysylltu.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi cael diweddariad ar gyhoeddi Diogelwyr Taith yr Iaith Gymraeg ar gyfer pob nod yn y Ddeddf; y copi drafft o'r Adroddiad Archwilio yn mesur ein gwaith ymgysylltu yn erbyn y pum ffordd o weithio; a'r adborth a gafwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd o ran y dystiolaeth a gyflwynodd yr Amgueddfa a oedd yn ymateb i 'Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: offeryn hunan-fyfyrio'. Nododd y Bwrdd y bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad trosolwg yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar y canfyddiadau ar draws yr holl gyrff cyhoeddus. Bydd y Comisiynydd hefyd yn cyhoeddi'r 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' cyntaf a thrwy lansio 'Cymru Ein Dyfodol' a 'Llwyfan y Bobl', mae'r Comisiynydd yn annog pobl i roi eu barn ar fanifesto ar y cyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol Cymru.</p> <p>2.3. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad hefyd a Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu, sy'n anelu at gefnogi'r modd o wneud penderfyniadau o fewn cyd-destun y Ddeddf. Nododd y Bwrdd fod cyrff cyhoeddus eraill yn defnyddio'r fframwaith. Mae'r Amgueddfa yn aml yn cyflwyno astudiaethau achos i Swyddfa'r Comisiynydd, a chafodd ein henghreffftiau sylw yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Comisiynydd wedi cydnabod y rhain fel arfer gorau. Byddai Heledd Morgan, un o'r Ysgogwyr Newid yn swyddfa'r Comisiynydd yn fodlon siarad â'r Bwrdd.</p> <p>2.4. Roedd y Llywydd yn credu bod yr Amgueddfa ar flaen y gad yng Nghymru o ran y modd yr oedd yn dehongli'r Ddeddf ac yn ymateb iddi.</p> <p>2.5. <u>Penderfynwyd</u>: Gwahodd Heledd Morgan i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol. Y dylai'r Amgueddfa ymchwilio i'r posibilrwydd i Fyrddau'r cyrff a enwir yn y Ddeddf gwrdd â'i gilydd.</p> <p>3. DANGOSFWRDD</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y templed yn dangos sut y byddai'r ffactorau llwyddiant critigol ac uchafbwyntiau datblygiadau sylweddol ym mhob mis yn cael eu cofnodi. Byddai adroddiad chwarterol y Cynllun Gweithredol yn parhau i fod yn brif ddogfen lywodraethu.</p> <p>3.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y dangosfwrdd, pan fydd hynny'n bosibl, yn cynnwys saethau i ddangos tueddiadau,</p>	<p>DA</p> <p>NiaW</p> <p>PS Ymddiriedolwyr</p>
--	--	--

	<p>monitro ein hôl troed carbon, a gostyngiad yn nifer y llinellau. Y Bwrdd i roi sylwadau ar y fersiwn nesaf o'r Dangosfwrdd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.</p> <p>4. Y CYFLAWNIADAU A NODIR YN Y LLYTHYR CYLCH</p> <p>4.1. <u>Nodwyd</u>: Bod y Cynllun Gweithredol a'r Dangosfwrdd yn crynhoi ymrwymadau'r Amgueddfa ac yn ymateb iddynt.</p>	
5	<p>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y perfformiad yn dda hyd yn hyn. Roedd yr Amgueddfa wedi treblu ei helw yn NMGW Enterprises Ltd ers cyhoeddi Adroddiad Thurley ym mis Mehefin 2017. Roedd y targedau incwm ar gyfer Casgliadau ac Ymchwil yn heriol a byddai Uwch Dîm yr Amgueddfa yn cwrdd â'r Penaethiaid Adrannau o fewn yr Is-adran hon i ystyried blaenoriaethau.</p> <p>3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p>	
6	<p>ADOLYGIAD THURLEY</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Dyma'r adroddiad terfynol i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar y ffurf hon. Byddai adroddiadau'r dyfodol yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gyda diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad.</p> <p>3. Nododd y Bwrdd mai'r eitemau a oedd yn weddill yn yr adroddiad o hyd oedd y rhai yr oedd angen cyllid ychwanegol ar eu cyfer. Roedd trafodaethau gyda gwleidyddion a rhanddeiliaid bellach yn canolbwyntio ar fanylion y camau gweithredu o fewn yr Adroddiad yn hytrach na'r Adroddiad ei hun neu'r cyd-destun comisiynu.</p> <p>4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac at Simon Thurley yn nodi y byddai'r gwaith o adrodd ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei brif ffrydio o fewn systemau adrodd presennol yr Amgueddfa. Bod yr adroddiad hwn, fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod priodol nesaf yr Amgueddfa.</p>	DA
7	<p>1. CYNLLUN AELODAETH</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Datblygu a'r Swyddog Marchnata Aelodaeth.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Cafodd yr ymddiriedolwyr ddiweddariad am y cynnydd o ran datblygu a lansio'r cynllun.</p> <p>1.3. Nododd yr ymddiriedolwyr y rôl werthfawr y mae Noddwyr a Chyfeillion yn ei chwarae o ran cefnogi gwaith yr Amgueddfa, a'r ffyrdd addysgiadol a diddorol y mae aelodau'r cynlluniau hyn yn ymwneud â gwaith yr Amgueddfa. Trafodwyd ffyrdd o ddatblygu'r cynllun ymhellach. Nododd yr ymddiriedolwyr ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag anghenion y bobl hynny nad oedd ganddynt fynediad corfforol hawdd i safleoedd yr Amgueddfa.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai'r ymddiriedolwyr, yn unol â Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn cyd-drafod gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu i ystyried ffyrdd o hyrwyddo'r cynllun i'w cysylltiadau. Cafodd yr ymddiriedolwyr eu hannog i ymuno neu</p>	Ymddiriedolwyr RN

	<p>gyfrannu, i gymryd rhan mewn gwaith hyrwyddo i gymheiriaid, ac i eirioli ar ran yr Amgueddfa fel elusen a menter gymdeithasol. Bod y Bwrdd yn cael diweddariad ym mis Mawrth 2020 o ran cynnydd y Cynllun.</p> <p>2. ASTUDIAETHAU DICHONOLDEB: AMGUEDDFA CHWARAEON I GYMRU; ORIEL GELF GYFOES GENEDLAETHOL</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod trafodaethau ynghylch yr Amgueddfa Bêl-droed yn parhau gyda Llywodraeth Cymru. Roedd yr Amgueddfa wedi nodi ei phryderon o ran y cynigion diweddaraf - p'un a fyddai'r fenter yn dod yn rhan o Amgueddfa Cymru neu'n gorff allanol, fel amgueddfa ar wahân. Roedd Amgueddfa Cymru o'r farn mai'r ffordd o gael y canlyniad gorau fyddai drwy ddatblygu'r bartneriaeth â Chyngor Wrecsam, gan alluogi'r Amgueddfa i ddefnyddio'i chasgliadau mewn ffordd fwy creadigol.</p> <p>2.2. Adroddodd Dirprwy Gyfarwyddwr MAALD fod y cynlluniau yn eithaf datblygedig a bod angen eglurder ynghylch yr arweinyddiaeth. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ymrwymiad yr Amgueddfa i sicrhau bod yr Amgueddfa ei hun a Chymru gyfan yn adlewyrchu diwylliant poblogaidd yn well, gan gyfeirio at y berthynas gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru fel un enghraifft.</p> <p>2.3. O ran Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru, roedd y trafodaethau unwaith eto yn parhau gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Amgueddfa.</p> <p>2.4. Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i'r rôl arwain y dylai ei hysgwyddo yn y ddwy fenter, gan gynorthwyo i lunio a llywio'r canlyniadau drwy ei thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'i chefnogaeth iddynt.</p> <p>2.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru o ran y ddwy Astudiaeth Ddichonoldeb yn parhau.</p> <p>3. LLWYFANNAU MASNACHOL</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Cyfryngau Digidol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi cael diweddariad ynghylch sut roedd cwmpas prosiect y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid wedi cael ei ymestyn i gynnwys systemau trafodiadau a mentrau eraill. Mae dogfen cychwyn prosiect yn cael ei llunio i'r Weithrediaeth graffu arni.</p> <p>3.3. Nododd y Bwrdd sut y bydd y prosiect yn sicrhau bod profiad y defnyddiwr yn cael ei symleiddio, y bydd y system yn hawdd i staff ei defnyddio, ac y bydd y strwythur yn fwy cynaliadwy.</p> <p>3.4. Bydd yr Amgueddfa yn defnyddio methodoleg rheoli prosiect er mwyn sicrhau gwaith treialu a phrofi priodol. Nododd y Bwrdd hefyd fod angen cyllid ychwanegol i sicrhau y gellid ei weithredu'n llawn.</p> <p>3.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y diweddariad wedi'i nodi.</p>	DA
8	<p>PROJECTAU MAWR</p> <p>1. Y RHAGLEN CYNNAL A CHADW HANFODOL</p>	

	<p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Adeiladau, y Rheolwr Rhaglenni Cyfalaf a'r Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Llywydd yn nodi bod y Bwrdd wedi trafod mewn Sesiwn Gaeedig faterion yn ymwneud â rhaglen cynnal a chadw ehangach yr ystâd. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yma yn canolbwyntio ar elfennau'r rhaglen a gaiff eu cyllido sy'n cael eu datblygu. Cyflwynir adroddiad ar y ddwy elfen i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn cael y wybodaeth lawn am gyflwr cyffredinol ystâd yr Amgueddfa, a'r elfennau iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar brofiad ymwelwyr a staff. Nododd yr ymddiriedolwyr sut roedd yr Amgueddfa yn ceisio manteisio ar bob cyfle i ddatblygu gwaith yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd tra roedd y sgaffaldiau yn eu lle. Byddai costau ychwanegol am ailgodi'r sgaffaldiau pe bai bwch yn y cyllid ar gyfer gwahanol ddarnau o waith.</p> <p>1.3. Nododd y Llywydd pa mor drwm oedd y gwaith hwn i'r Amgueddfa, a'i bod yn hanfodol cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gymeradwyo a chefnogi cynllun graddol i fynd i'r afael â holl elfennau amrywiol y rhaglen waith gyffredinol. Ymhellach, roedd yn bosibl y byddai angen i'r Amgueddfa gau neu roi'r gorau i weithgareddau neu gau safleoedd pe bai achos difrifol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn codi.</p> <p>1.4. Roedd Dirprwy Gyfarwyddwr MAALD yn ymwybodol o anghenion yr Amgueddfa ac anghenion ei phartneriaid yn genedlaethol.</p> <p>1.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
9	<p>DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLIADOL</p> <p>1. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Addysgu ac Ymgysylltu fod yr adroddiad blynyddol bellach ar gael ar-lein ar wefan yr Amgueddfa: https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi-iaith-gymraeg/?_ga=2.224574426.1971259223.1570527943-187848687.1545045399 a https://museum.wales/about/policy/welsh-language-policy/ Gwnaed gwaith da, a nododd y Comisiynydd fod adroddiad yr Amgueddfa yn batrwm i eraill ei ddilyn. Ni fu dim cwynion yn ystod y chwarter.</p> <p>1.2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p> <p>2. Y Rheoliad Cenedlaethol ar Ddiogelu Data (GDPR)</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol y bu tri mân achos o dorri GDPR, ac nad yr Amgueddfa a oedd ar fai mewn cysylltiad ag un ohonynt. Cynhaliwyd prawf diogelwch annibynnol mewn perthynas â bregusrwydd gan drydydd parti a ddangosodd nad oedd problemau difrifol. Cofnodwyd tri risg fel rhai uchel, ond roedd pob un wedi'i lliniaru. Nododd yr Ymddiriedolwyr sut yr oedd yr Amgueddfa yn cymharu â sefydliadau eraill o ran cydymffurfio.</p> <p>2.2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p> <p>3. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH</p>	

	<p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad yr Ymwelydd, a'r Pennaeth Amgueddfeydd.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn dangos bod y cynnydd yn nifer yr achosion yn gymesur â'r cynnydd yn nifer yr ymweliadau â safleoedd yr Amgueddfa. Cafodd yr adroddiad ei drafod mewn cysylltiad â'r Cofrestrau Risgiau er mwyn galluogi'r Amgueddfa i fynd i'r afael â materion yn effeithiol ac yn effeithlon.</p> <p>3.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adroddiad ar lechyd a Diogelwch yn cael ei gyflwyno i bob cyfarfod Bwrdd o hyn ymlaen, mewn rhan amlwg o'r agenda. Bod yr Amgueddfa yn ystyried defnyddio'r teitl 'Llesiant ac lechyd a Diogelwch'.</p>	JL
10	<p>Atodiad 1 Cofnodion yr amrywiol Bwyllgorau a Grwpiau. Nododd y Bwrdd fod yr Ymddiriedolwr Michael Prior wedi dod yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn.</p>	
	<p>UFA Argyfwng Hinsawdd Croesawodd yr Ymddiriedolwr Catherine Duigan ddatganiad yr Amgueddfa ar yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd-eang, a'r ffaith ei bod wedi ymuno â sefydliadau eraill yn y cytundeb Diwylliant yn Datgan Argyfwng. Cafodd y staff eu canmol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol am gymryd camau i hyrwyddo hyn.</p> <p>Hawliau Diwylliannol a Democratiaeth Ddiwylliannol Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol am y gweithdy llwyddiannus ar Hawliau Diwylliannol a Democratiaeth Ddiwylliannol yn y Gwledydd Celtaidd rhwng 9 a 10 Medi 2019 yn Sain Ffagan. Roedd yn ddigwyddiad gwerthfawr a oedd yn cynnwys staff o Amgueddfa Cymru, yr amgueddfeydd rhanbarthol yng Nghymru a chydweithwyr o Iwerddon a'r Alban. Caiff y digwyddiad ei ailadrodd.</p>	
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf <u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 12 Rhagfyr 2019 yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.</p>	